# YMWELIADAU SAFLE

## Cofnodion y cyfarfod ar 20 Rhagfyr, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts - Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Dafydd Roberts,Robin Williams |
| **WRTH LAW :** | Swyddog Cynllunio (MD). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, R O Jones, Shaun Redmond. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr R Meirion Jones, Alun Mummery. |

---

**1** **39C285D - CAIS LLAWN I GODI 17 ANNEDD AR DIR YN LÔN GAMFA, PORTHAETHWY**

Eglurodd y Swyddog Cynllunio beth oedd y datblygiad arfaethedig a'r cam yr oedd y cais cynllunio wedi'i gyrraedd. Cafwyd trafodaethau wrth y fynedfa i'r safle lle disgrifiodd y Swyddog y trefniant arfaethedig ar gyfer y datblygiad. Holwyd ynglŷn â hanes y cais, draenio a bywyd gwyllt.

**Y CYNGHORYDD NICOLA ROBERTS**
**CADEIRYDD**